

226/01

**LLENYDDIAETH GYMRAEG**

**HAEN SYLFAENOL**

A.M. DYDD IAU, 25 Mai 2006

(2 awr)

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Llyfryn ateb 12 tudalen.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Atebwch **ddau** gwestiwn, **un** cwestiwn o Adran A (Barddoniaeth), ac **un** cwestiwn o Adran B (Nofel).

Defnyddiwch yr indecs isod i ddod o hyd i'r cwestiwn ar y nofel y buoch chi'n ei hastudio.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Mae 25 marc am bob cwestiwn cyfan. Dangosir hyn yn glir ar waelod pob cwestiwn (ynghyd â'r marciau am is-gwestiynau).

**Cofiwch ddyfynnu'n briodol a chyfeirio at enghreifftiau penodol i gefnogi'ch sylwadau.**

Bydd y marcio yn ystyried ansawdd eich iaith a'ch mynegiant yn eich atebion.

Ni chaniateir i chi ddefnyddio geiriaduron na thestunau gosod.

Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.

	<b>Tudalen</b>
<b>ADRAN A – BARDDONIAETH</b>	2
<b>ADRAN B – NOFEL</b>	5
UN NOSON DYWYLL (T. Llew Jones)	6
LLINYN TRÔNS (Bethan Gwanas)	8
AC YNA CLYWODD SŴN Y MÔR (Alun Jones)	10
I BLE'R AETH HAUL Y BORE? (Eirug Wyn)	12

## ADRAN A – BARDDONIAETH

*Atebwch un cwestiwn o'r adran hon.*

THEMÂU: NATUR; IEUENCTID A BYWYD CYFOES;  
RHYFEL A THRAIS; PIGO CYDWYBOD; CYMRU A CHYMREICTOD  
(o'r cyfrolau *Sbectol Inc* a *Hoff Gerddi Cymru*)

**Naill ai,**

1. Darllenwch y darn canlynol o'r thema **Rhyfel a Thrais**.  
Yna, atebwch y cwestiynau sy'n dilyn:

Geneth naw mlwydd oed  
ar gymwynas daith;  
peint o laeth gwyn  
i gymydog.  
Trwy gyrrau'r ffenest  
gwyliodd ei mam,  
ei gweld yn cerdded  
a chwympo;

- (a) Beth yw enw'r gerdd ac enw'r bardd? [1]
- (b) Yn eich geiriau eich hun, ysgrifennwch am yr hyn sy'n digwydd **yng ngweddill y gerdd**. [5]  
Rhaid dyfynnu o weddill y gerdd. [2]
- (c) Dewiswch **dair** nodwedd arddull **wahanol** o'r gerdd gyfan.
- Enwch y nodweddion.
  - Dyfynnwch enghraifft o'r tair nodwedd.
  - Dywedwch pam y mae'r nodweddion hyn yn effeithiol.
- Gallwch gyfeirio at nodweddion megis sŵn geiriau, ansoddeiriau, cymhariaeth/cyffelybiaeth, trosiad, cyferbynnu ac ati. [9]
- (ch) (i) Cerdd arall yn y thema **Rhyfel a Thrais** yw 'Englynion Coffa Hedd Wyn'.  
Soniwch am **ddwy** ffordd y mae'r bardd yn cyfleu'r tristwch sy'n y gerdd. [2]
- (ii) Pa mor bwysig yw thema **Rhyfel a Thrais** i ni heddiw?  
Soniwch am y **ddwy** gerdd yn eich ateb. [4]  
Defnyddiwch dystiolaeth o'r cerddi wrth ateb.  
Cofiwch ei bod hi'n bwysig i chi **ddyfynnu** o'r cerddi. [2]
- [25]

Neu,

2. Dewiswch **ddwy** gerdd - un gerdd o thema **Natur** a'r llall o thema **Cymru a Chymreictod**.

(a) Rhowch deitlau'r **ddwy** gerdd. [1]

(b) Yn eich geiriau eich hun, ysgrifennwch am gynnwys y **ddwy** gerdd. [5]  
Rhaid dyfynnu o'r **ddwy** gerdd wrth ateb. [2]

(c) Dewiswch **un** o'r cerddi.  
Dewiswch **dair** nodwedd arddull **wahanol** o'r gerdd gyfan.

- Enwch y nodweddion.
- Dyfynnwch enghraifft o'r tair nodwedd.
- Dywedwch pam y mae'r nodweddion hyn yn effeithiol.

Gallwch gyfeirio at nodweddion megis sŵn geiriau, ansoddeiriau, cymhariaeth/cyffelybiaeth, trosiad, cyferbynnu ac ati. [9]

(ch) Dewiswch **un** o'r cerddi.  
Enwch fesur y gerdd.  
Dywedwch beth yw prif nodweddion y mesur hwn. [2]

(d) Pa **un** o'r themâu hyn yr ydych chi wedi ei mwynhau fwyaf?

(i) Beth wnaeth apelio atoch a pham? [2]

(ii) Ydy'r thema'n bwysig i bobl ifanc heddiw? [2]

Defnyddiwch dystiolaeth o'r cerddi wrth ateb.  
Cofiwch ei bod hi'n bwysig i chi **ddyfynnu** o'r cerddi. [2]

[25]

# **TUDALEN WAG**

**ADRAN B – NOFEL**

*Atebwch **un** cwestiwn o'r adran hon.*

## UN NOSON DYWYLL – T. Llew Jones

3. Darllenwch y darn a gymerwyd o **Un Noson Dywyll**. Yna, atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan ddyfynnu'n briodol. (Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)
- (a) Pam y mae Tomos Wiliam eisiau i Catrin fynd â'r baban i'r Hafod? [3]
- (b) Dywedwch sut y daeth y baban i dollborth Pont-y-glyn at Tomos Wiliam a Gwen. [2]
- (c) Pwy sydd wedi ysgrifennu'r llythyr a pham y mae cynnwys y llythyr mor bwysig? [4]
- (ch) (i) Edrychwch ar arddull llinell 13 y darn:  
*'Ofn y tacle 'na?'* meddai Catrin yn ffyrnig. *'Does arna i ddim ofn yr un dyn byw, 'machgen i!'*  
 Dywedwch pam y mae'r darn hwn yn effeithiol. [2]
- (ii) Edrychwch ar arddull llinellau 17-23 y darn:  
*'...ond ar un amod.'*  
*'Ie?'*  
*'Mod i'n cael gwbod mwy o'i hanes e.'*  
*'Ond wn i ddim rhagor...'*  
*'Y waled 'na Tomos.'*  
*'Wyt ti'n awgrymu ein bod ni'n ...?'*  
*'Yn agor yr amlen 'na.'*  
 Dywedwch pam y mae'r darn hwn yn effeithiol. [2]
- (iii) Edrychwch ar arddull linellau 32-33 y darn:  
*"Ar ôl ei hagog tynnodd yr amlen allan, ac wedi oedi tipyn mewn petruster - torrodd y sêl. A'r foment honno daeth Gwen â bwyd i'r ford."*  
 Dywedwch pam y mae'r darn hwn yn effeithiol. [2]
- (d) Ydych chi'n hoff o **gymeriad Catrin Puw**? Pam?  
 Rhowch resymau gan gyfeirio at ddigwyddiadau penodol yn y nofel. Ysgrifennwch tua thri chwarter tudalen. [5]
- (dd) Dychmygwch mai chi yw Tomos Wiliam. Rydych chi'n arddwr yn Nôl-y-Brain. Ysgrifennwch **lythyr** at Patrick O'Kelly yn sôn am yr hyn sy'n digwydd yno. Dylech ysgrifennu tua thri chwarter tudalen. [5]
- [25]

'Fydde fe'n ddiogel gyda chi yn yr Hafod,' meddai. 'Does 'na fawr iawn o bobol ddiarth yn dod ffor'na. A phe baen nhw'n dod rŷch chi'n gallu'u gweld nhw'n dod o bell . . .'

'O!' meddai hithau, gan edrych yn gas arno. 'Rwy'ti'n haerllug, Tomos, yn gofyn i fi neud y fath beth! Beth fyddde Ifan yn feddwl pe bawn i'n addo cymryd plentyn diarth . . . ?'

Gwenodd Tomos Wiliam. Fe wyddai fod Ifan yr Hafod y mwyaf diniwed o ddynion, a'i fod yn llwyr o dan fawd ei wraig. Gwyddai nad oedd yr hen Ifan wedi amau yr un gair a ddywedodd Catrin erioed. Pe bai'n dod adre â llond carafán o sipsiwn gyda hi, fyddai Ifan ddim yn debyg o ddweud yr un gair. Un felly oedd e. 5

'Nawr, Catrin,' meddai Tomas Wiliam, 'rwy'ti'n gwbod yn iawn pwy sy'n trefnu pethe tua'r Hafod 'co. Rwy'n nabod Ifan yn ddigon da i wbod na fyddde fe byth yn mynd yn dy erbyn di mewn 10

- dim. Ac fe fydde'r plentyn bach 'ma yn gwmni i chi'ch dou. Ond mae'n debyg fod ofn y bobol 'ma sy'n edrych amdano fe . . .'
- 'Ofn y tacle 'na?' meddai Catrin yn ffyrnig. 'Does arna i ddim ofn yr un dyn byw, 'machgen i!'
- 'Fe'i cym'ri di e felly?' Roedd llais Tomos Wiliam yn eiddgar.
- Nid atebodd ei chwaer ar unwaith. Edrychodd i fyw llygad ei brawd, yna yn ôl ar y baban yn ei chôl. 15
- 'Gwnaf, Tomos,' meddai o'r diwedd, 'ond ar un amod.'
- 'Ie?'
- 'Mod i'n cael gwbod mwy o'i hanes e.'
- 'Ond wn i ddim rhagor . . .'
- 'Y waled 'na, Tomos.'
- 'Wyt ti'n awgrymu ein bod ni'n . . .?'
- 'Yn agor yr amlen 'na.'
- 'Ond fe ddwedodd y gŵr ifanc y byddai'n well i ni beidio.'
- 'Fedra i ddim cymryd plentyn heb wybod dim amdano fe, Tomos. Falle 'mod i'n gwneud cam ag e wrth 'i gymryd e i'r Hafod. Falle y bydde hi'n well i ni 'i roi fe'n ôl i'r rhai oedd 'ma yn edrych amdano fe.'
- 'Na.'
- 'O'r gore, Tomos, os wyt ti'n benderfynol o beidio agor yr amlen, mae'n ddrwg gen i ond alla i ddim addo 'i gymryd e.'
- Gwelodd Tomos Wiliam fod ei chwaer yn benderfynol. Aeth i'r drôr a thynnu allan y waled drwchus. Ar ôl ei hagor tynnodd yr amlen allan, ac wedi oedi tipyn mewn petruster – torrodd y sêl. A'r foment honno daeth Gwen â bwyd i'r ford. 30
- 'Dewch at eich bwyd, Modryb Catrin, a dewch ag Arthur i fi.'
- Estynnodd y bychan ei freichiau at Gwen gan gicio'i draed ar gôl Catrin Puw. 35
- 'Hy!' meddai honno yn ffug-ddifrifol. 'Rwy'n gallu gweld fod hwn wedi cael 'i sbwylio'n barod yn y tŷ 'ma. Os daw e i'r Hafod chaiff e ddim llawer o faldod, fe alla i ddweud wrthoch chi nawr!'
- Winciodd Tomos Wiliam ar Gwen. Fe wyddai'r ddau'n iawn y byddai'r bychan yn siŵr o gael pob math o faldod pe bai'n mynd at Catrin Puw a'i gŵr.
- Eisteddodd yr hen Gatrin wrth y bwrdd i fwyta basnaid o gawl twymo a thipyn o fara gwenith o'i gwaith ei hunan. 40
- 'Wel, edrych be sy yn yr amlen 'na 'te, Tomos,' meddai.
- Tynnodd Tomos Wiliam gynnwys yr amlen allan. Gwelodd mai llythyr trwchus ydoedd, wedi ei ysgrifennu ar nifer fawr o dudalennau o bapur da. Ar ben pob tudalen yr oedd arfbais – llun tarian â brân ddu, falch yr olwg, yn ei chanol. 45
- 'Darllen e!' meddai Catrin yn ddiamynedd. Ond fe deimlai Tomos Wiliam ryw anesmwythyd – rhyw euogrwydd . . . roedd y gŵr ifanc wedi dweud . . . ond gwyddai y byddai Catrin yn mynnu clywed beth oedd cynnwys y llythyr cyn cymryd y baban. Aeth i eistedd mewn cadair yn ymyl y ffenest, a dyma fe'n dechrau darllen.

## LLINYN TRÔNS – Bethan Gwanas

4. Darllenwch y darn a gymerwyd o **Llinyn Trôns**. Yna, atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan ddyfynnu'n briodol. (Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)

- (a) Ble mae'r criw ar eu gwyliau a pham y maen nhw wedi cael parti y noson gynt? [3]
- (b) Sut berthynas sydd rhwng cymeriad Llion a chymeriadau Gags a Nobi? [2]
- (c) Ysgrifennwch am ddigwyddiadau'r noson gynt a arweiniodd at Gags yn diflannu. [4]
- (ch) (i) Edrychwch ar arddull llinellau 2-3 yn y darn:  
*"A phan ddaeth Gwenan i mewn, 'nath hi'm sbio arna i. Fflipin hec, doedd hi 'rioed yn fy meio i?"*  
 Dywedwch pam y mae'r darn hwn yn effeithiol. [2]
- (ii) Edrychwch ar arddull llinellau 5-6 yn y darn:  
*"...roedd o'n amlwg wedi cael amser da efo rhyw greadures ddall efo IQ dafad."*  
 Dywedwch pam y mae'r darn hwn yn effeithiol. [2]
- (iii) Edrychwch ar arddull llinellau 12-13 yn y darn:  
*"Edrychodd Gwenan arno'n fud am eiliad, a dyma ei gwefus isa hi'n dechrau crynu, ac mi gododd fel mellten a rhedeg allan o'r stafell."*  
 Dywedwch pam y mae'r darn hwn yn effeithiol. [2]
- (d) Ydych chi'n hoff o **gymeriad Llion**? Pam?  
 Rhowch resymau gan gyfeirio at ddigwyddiadau penodol yn y nofel. Ysgrifennwch tua thri chwarter tudalen. [5]
- (dd) Dychmygwch mai chi yw Gwenan.  
 Ysgrifennwch **lythyr** at Donna yn trafod digwyddiadau'r gwyliau.  
 Dylech ysgrifennu tua thri chwarter tudalen. [5]

[25]

Pan es i lawr i frecwast y bore wedyn, roedd llygaid pawb fel marblis. Rhai wedi cael partis drwy'r nos yn rhywle mae'n amlwg. Typical, dw i wastad yn colli'r hwyl i gyd. A phan ddaeth Gwenan i mewn, 'nath hi'm sbio arna i. Fflipin hec, doedd hi 'rioed yn fy meio i? Daeth Nobi draw at Dei a finnu, efo powlan o gornfflêcs a gwallt fel crib iâr.

"S'ma'i hogiau? Noson dda doedd?" Roedd 'na wên ryfedd ar ei wyneb o; roedd o'n amlwg wedi cael amser da efo rhyw greadures ddall efo IQ dafad. "Dach chi 'di gweld Gags?" 5

"Naddo," atebodd Dei efo llond ceg o frechdan wy.

"Y diawl drwg heb gysgu yn ei wely ei hun neithiwr!" chwarddodd Nobi. Yna trodd at fwrdd Gwenan ac Olwen a gweiddi: "Hei! Lle mae Gags gen ti? Dal i chwyrnu mwn! Gobeithio fod 'na well hwyl arno fo na neithiwr – roedd o'n uffernol o flin pan welais i o ddwytha. Ond ti'n gwbod sut i'w drin o'n well na fi 'dwyt?" 10

Edrychodd Gwenan arno'n fud am eiliad, a dyma ei gwefus isa hi'n dechrau crynu, ac mi gododd fel mellten a rhedeg allan o'r stafell.

Edrychodd Nobi'n hurt arni'n gadael. "Be uffar sy'n bod arni hi?"

Daeth Olwen draw aton ni, a'i llygaid ar dân. 15



“Fedri di’ m cau dy hen geg, Nobi? Rhwbio halen i’r briw fel ’na.”

Crychodd Nobi ei dalcen. “Pa friw?”

Ochneidiodd Olwen a cheisio egluro. “Doedd o’ m efo Gwenan neithiwr.”

“O. Dw i’ n gweld. Lle mae o ’ta?” holodd Nobi’n swta. “Doedd o’ m efo ni. Welais i mono fo o gwbl ar ôl i’r disgo ddechrau.” 20

Cododd Dei ar ei draed a sganio’r stafell. “Wela i ddim fod neb arall ar goll.”

“Sai well i ni sôn wrth rywun?” holais i, gan ddechrau teimlo’n annifyr.

“Na, ’sdim isio gneud rhyw hen lol nac oes?” meddai Nobi. “Mi ddaw yn ei ôl toc, efo uffar o stori fawr. Wedi bachu, garantîd i ti. Crinc lwcus fuodd o ’riod.”

Toc wedyn, mi gododd Tecs Pecs ar ei draed a tharo’r bwrdd efo llwy. 25

“Tawelwch os gwelwch yn dda! Diolch. Reit, mewn hanner awr, mi fydda i’ n ffonio’r Prifathro, ac mi fydd yn ffacsio’r canlyniadau TGAU i mi.”

Dechreuodd pawb ochneidio a chwyno a gneud stumiau, hyd yn oed y rhai roedd pawb yn gwbod y byddan nhw’ n cael o leia deg A\*.

“Tawelwch!” gwaeddodd Tecs. “Dowch ’laen, mi fyddwch chi wedi gwneud yn well na’r disgwyl, gewch chi weld. Ac ymhen yr awr, gewch chi ddod ata i yn stafell y Pennaeth i dderbyn eich canlyniadau’n unigol. Yn y cyfamser, ewch i bacio a thwtio’ch stafelloedd. Wela i chi cyn bo hir!” 30

Mi gododd pawb yn hollol *depressed*, a chychwyn yn araf am eu stafelloedd. Ond fel ro’ n i’ n mynd trwy’r drws, daeth Donna ar fy nhraws i. 35

“Sgiwsia fi, Donna,” medda fi wrthi, “ond dw i’ n meddwl y dylwn i ddeud wrthat ti ...”

“Be?”

“Mae Gags ar goll.”

## AC YNA CLYWODD SŴN Y MÔR - Alun Jones

5. Darllenwch y darn a gymerwyd o **Ac Yna Clywodd Sŵn y Môr**. Yna, atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan ddyfynnu'n briodol. (Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)
- (a) Mae'r heddlu eisiau dal Richard Jones. Pam? [3]
- (b) Pam y mae Huw Gwastad Hir eisiau ymosod ar Meredydd eto? [2]
- (c) Mae Gareth Hughes yn meddwl am gynllun i ddysgu gwers i Huw Gwastad Hir. Ysgrifennwch yn fanwl am y cynllun hwn a'r hyn a ddigwyddodd i Huw. [4]
- (ch) (i) Edrychwch ar arddull llinellau 11-12 y darn:  
*"Beth oedd enw'r Arolygydd hefyd? Emrys Roberts. Ie."*  
 Dywedwch pam y mae'r darn hwn yn effeithiol. [2]
- (ii) Edrychwch ar arddull llinell 30 y darn:  
*"A chofiodd. Cofiodd yn syth."*  
 Dywedwch pam y mae'r darn hwn yn effeithiol. [2]
- (iii) Edrychwch ar arddull llinellau 37-43 y darn:  
*"Achos pwysig iawn i ti," meddai wrtho.*  
*"Y?"*  
*"Achos o geisio llofruddio."*  
*Trodd yr heddwes ei ben yn sydyn.*  
*"Be?"*  
*Gwenai ei wraig o glust i glust.*  
*"Gladys Drofa Ganol."*  
 Dywedwch pam y mae'r darn hwn yn effeithiol. [2]
- (d) Ydych chi'n hoff o **gymeriad Richard Jones**? Pam?  
 Rhowch resymau gan gyfeirio at ddigwyddiadau penodol yn y nofel. Ysgrifennwch tua thri chwarter tudalen. [5]
- (dd) Dychmygwch mai chi yw Gladys Drofa Ganol.  
 Ysgrifennwch **lythyr** at eich ffrind yn sôn am helynt Meredydd Parri yn ystod y misoedd diwethaf.  
 Dylech ysgrifennu tua thri chwarter tudalen. [5]

[25]

Peth rhyfedd i ddau beth mor debyg i'w gilydd ddigwydd yr un bore, meddyliai Gareth Hughes wrth ddychwelyd i Hirfaen yn y fen. Gweld dau ddyn, a chael y syniad ei fod wedi eu gweld o'r blaen, ond heb wybod ym mhle. Yn gyntaf, y dyn hwnnw a gyfarfu ar waelod Allt Ceris pan oedd yn mynd am Benerddig. Dim ond cip a gafodd yr heddwes arno wrth iddo fynd heibio'n y niwl, ond yr oedd yn siŵr ei fod yn adnabod yr wyneb, a bod cysylltiad rhyngddo â rhywbeth neu'i gilydd, yn ymwneud rywfodd â Hirfaen. Ac wedyn, y sarjant yn dangos y llun iddo ym Mhenerddig, llun dyn yr oedd wedi ei weld o'r blaen, ond yn ei fyw ni allai gofio ym mhle na pha bryd. 5

Efallai mai'r un dyn oedd y ddau. Na, go brin. Ni fedrai'n ei fyw gofio sut gar oedd gan y dyn a welodd ar Allt Ceris, ond yr oedd rhyw debygrwydd rhwng y dynion erbyn meddwl, os nad oedd 10

ei ddychymyg ef yn mynnu cysylltu'r ddau. Beth oedd enw'r Arolygydd hefyd? Emrys Roberts. Ie. Y Sarjant yn gwneud iddo ffonio hwnnw ym Mae Colwyn yn syth pan ddywedodd ei fod yn adnabod, neu i fod i adnabod, yr wyneb yn y llun. A'r Arolygydd yn pwysu arno i geisio cofio, bod y peth yn bwysig, ac yn pwysleisio ddwywaith bod y peth yn gyfrinachol, ac nad oedd neb o'r tu allan i'r Heddlu i gael achlust o fath yn y byd ar unrhyw gyfrif. Yr oedd y dyn yn gloff, meddai'r Arolygydd, ac efallai wedi bod mewn rhyw ddamwain tua phum mlynedd yn ôl. 15

Ond yr oedd rhywbeth arall yn poeni'r heddwas. Yn ôl y sôn, buasai Huw Gwastad Hir yn yfed yn y dref neithiwr, ac yr oedd wedi bod yn brolio wrth bawb ei fod ef yn mynd i'w gwneud hi'n waeth ar Meredydd Parri nag a fyddai arno pe bai i mewn yn Walton. Ni cheisiai wadu mai ef a'i curodd nos Wener, a chyn diwedd y noson yr oedd yn disgrifio'n bur fanwl sut y byddai Meredydd yn ei chael y tro nesaf hefyd. Yr oedd Gareth Hughes yn benderfynol na châi Huw gyfle eto i wneud niwed i Meredydd, ond ni wyddai sut y medrai ef wneud dim i'w atal. Yr oedd yn rhaid meddwl am blan, ac yr oedd yn rhaid dweud wrth Meredydd i fod ar ei wyladwriaeth, er bod Robin Williams Yr Wylan Wen wedi dweud wrtho ddoe ei fod ef ei hun wedi rhybuddio Meredydd dim ond rhyw hanner awr cyn i'r peth ddigwydd nos Wener. Efallai y byddai Meredydd yn barotach i gydweithredu'r tro hwn. 20

Cliriasai'r niwl o Fynydd Ceris pan ddaeth i ben yr allt, ac argoeliasai am brynhawn braf. Câl orffen ddau o'r gloch gyda gobaith, a châi'r gweddill o'r dydd iddo'i hun. Mynd i feddwl beth i'w wneud ar ôl gorffen yr oedd pan ddaeth i'r tro ar waelod yr allt. 25

A chofiodd. Cofiodd yn syth. Y ddamwain rai blynyddoedd yn ôl ar waelod yr allt. Wrth gwrs bod y dyn yn gloff. Wrth gwrs ei fod wedi ei weld o'r blaen. Yr oedd ganddo newyddion i'r Arolygydd Roberts, ac yr oedd yr holl fanylion yn y swyddfa. 30

Neidiodd o'r fen a brasgamodd i'r tŷ. Clywai leisiau yn y gegin. Gwenodd, fe fyddai ei wraig yn fflamio; nid oedd yn hoffi pobl ddieithr ar fore Sul. 35

Aeth Gareth Hughes yn syth i'w swyddfa, ond cyn iddo dynnu ei gôt yr oedd ei wraig i mewn ar ei ôl. 35

“Achos pwysig iawn i ti,” meddai wrtho.

“Y?”

“Achos o geisio llofruddio.”

Trodd yr heddwas ei ben yn sydyn. 40

“Be?”

Gwenai ei wraig o glust i glust.

“Gladys Drofa Ganol. Mae 'na rywun wedi trïo'i lladd hi, medda hi. Dewch trwodd, Mrs. Davies,” gwaeddodd i'r drws. 40

### I BLE'R AETH HAUL Y BORE? – Eirug Wyn

6. Darllenwch y darn a gymerwyd o **I Ble'r Aeth Haul y Bore?** Yna, atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan ddyfynnu'n briodol. (Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)
- (a) Pwy yw Dicks a pham y mae Chico eisiau dial arno? [3]
- (b) Ysgrifennwch am **ddau** beth a wnaeth y Cotiau Glas i'r Indiaid Cochion. [2]
- (c) Eglurwch yn fanwl pam y mae Kit Carson wedi helpu Chico i gynllunio i ladd Dicks. [4]
- (ch) (i) Edrychwch ar arddull llinellau 11-12 yn y darn:  
*"Ond beth oedd y sŵn yna? Sŵn fel taranau yn dod o bell? Sŵn carnau ceffylau!"*  
 Dywedwch pam y mae'r darn hwn yn effeithiol. [2]
- (ii) Edrychwch ar arddull llinell 20 yn y darn:  
*"Daeth fflach o obaith i galon Dicks. Yna anobaith."*  
 Pam y mae'r darn hwn yn effeithiol. [2]
- (iii) Edrychwch ar arddull llinellau 36-37 yn y darn:  
*"Ffrwydrodd ugain o reiffls y Cotiau Glas a ffrwydrodd gwn Chico. Diffoddodd haul y bore."*  
 Dywedwch pam y mae'r darn hwn yn effeithiol. [2]
- (d) Ydych chi'n hoff o **gymeriad Haul y Bore?** Pam?  
 Rhowch resymau gan gyfeirio at ddiwyddiadau penodol yn y nofel. Ysgrifennwch tua thri chwarter tudalen. [5]
- (dd) Dychmygwch mai chi yw Kit Carson.  
 Ysgrifennwch **lythyr** at ffrind yn sôn am eich hanes wedi i chi ddianc o Ffort Defiance. Dylech ysgrifennu tua thri chwarter tudalen. [5]
- [25]

Sylweddolodd Dicks yn sydyn beth oedd yn digwydd.

"Carson! Kit? KIT!?" ymbiliodd Dicks. "Fedri di ddim gadael i hyn ddigwydd!"

Ysgydodd yntau'i ben.

"Mae 'na gyfiawnder hyd yn oed mewn rhyfel, Dicks."

Troes ei gefn ar y Capten a sbardunodd ei geffyl i gyfeiriad y coed. 5

"Carson!" gwaeddodd Dicks ar ei ôl, ond nid arhosodd Kit Carson o gwbl. Dim ond unwaith y trodd Carson yn ei ôl a hynny i weiddi ar yr Indiad.

"Mae'r Cotiau Glas yn dod, Chico!"

"Carson!"

Ond roedd ei waedd yn ofer. Gwyliai Dicks ei obaith yn pellhau oddi wrtho fel y carlamai Carson nerth carnau ei farch oddi yno. Ond beth oedd y sŵn yna? Sŵn fel taranau yn dod o bell? Sŵn carnau ceffylau! 10

Tynnodd Chico forthwyl y gwn yn ei ôl, ac eisteddodd wrth fôn y goeden. Fferrodd Dicks pan glywodd y sŵn hwnnw. Roedd hi'n fore braf ac roedd yntau ar fin marw! Roedd wedi dod trwy

- ysgarmesau lu, a rŵan roedd yn mynd i farw dan law Indiad nad oedd eto'n hanner ei oed! Oedd o'n mynd i farw? Fedrai o wneud rhywbeth i'w achub ei hun? Tynnu sylw'r Indiad felltith yma cyn iddo fo wasgu'r triger a thanio'i ergyd? 15
- Edrychodd eto ar Chico. Ceisiai hwnnw godi ar ei draed. Gallai Dicks weld ei fod yn cael trafferth. Gafaelai yn ei stumog ac roedd ei wyneb yn llanast o boen.
- Roedd sŵn carnau'r ceffylau yn dynesu. Daeth fflach o obaith i galon Dicks. Yna anobaith. Fe fyddai'r Indiad ddiawl yma'n siŵr o orffen ei waith ysgeler cyn i'r milwyr gyrraedd. Yna roedd yr Indiad yn siarad. 20
- “Edrych i'r coed, Dicks, beth weli di?”
- Cododd ei olygon a chraffodd. Drwy gornel ei lygad fe welai'r trŵp yn dynesu.
- “Beth weli di?” gofynnodd Chico drachefn. 25
- “Coed ...” atebodd yntau'n ffwndrus. Draw fe welodd fod arweinydd y milwyr wedi gwneud ystum ar ei ddynion i aros.
- “Beth arall?” Roedd ei lais yn floesg.
- “Haul ...”
- “Haul y bore, Dicks,” hysiodd. 30
- Aeth ias i lawr asgwrn cefn Dicks, a gwyddai'n syth nad oedd dianc i fod. Yn y llannerch draw gwelai'r milwyr yn estyn eu reiffls ac yn anelu at Chico. Edrychodd ar yr haul, yna ar Chico.
- “Chiquito!” sgrechiodd y llais arno.
- Daeth gwaedd y capten o'r llannerch draw.
- “Taniwch!” 35
- Ffrwydrodd ugain o reiffls y Cotiau Glas a ffrwydrodd gwn Chico.
- Diffoddodd haul y bore.